



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Rheoliadau Adeiladu (Cymru)

Cylchlythyr

Rhif y Cylchlythyr:		Dyddiad cyhoeddi:	DD / MM / BBBB
Statws:			
Teitl:			
Cyhoeddwyd gan:			
Cyfeiriwyd at:	Anfonwch ymlaen at:		
Crynodeb:			
I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:			
	Llinell Uniongyrchol:		
	E-bost:		
	Gwefan:		

HYSBYSIAD CYMERADWYO AR GYFER METHODOLEGAU CYFRIFO A DOGFENNAU CYMERADWY L1A, L1B, L2A ac L2B.

1. Mae Gweinidogion Cymru wedi gofyn i mi roi gwybod i chi fod hysbysiad cymeradwyo newydd wedi'i gyhoeddi ar gyfer methodolegau a ddiweddarwyd i gyfrifo allyriadau CO₂, gwerthoedd perfformiad ffabrig anheddau newydd, cyfraddau defnyddio ynni sylfaenol mewn adeiladau newydd a thystysgrifau perfformiad ynni ar gyfer adeiladau newydd.
2. Mae Gweinidogion Cymru hefyd wedi gofyn i mi dynnu'ch sylw at y ffaith bod fersiynau terfynol o Ddogfennau Cymeradwy L1A, L1B, L2A, ac L2B wedi'u cyhoeddi.

Cwmpas y cylchlythyr hwn

3. Mae'r Cylchlythyr hwn yn gymwys i adeiladau a gwaith adeiladu yng Nghymru. Nid yw'n gymwys i adeiladau ynni a eithrir¹ yng Nghymru.

¹ Caiff Adeiladau Ynni ac Eithrir eu diffinio yn yr atodlen i Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009 (O.S. 2009/3019).

Hysbysiad cymeradwyo ar gyfer methodolegau cyfrifo perfformiad ynni adeiladau

4. Mae rheoliadau 25, 25C, 26, 26A, 26B, 27, 27A, 27B a 29 o Reoliadau Adeiladu 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i gyfrifo perfformiad ynni adeiladau newydd drwy ddefnyddio methodoleg a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru, o dan reoliad 24 o'r Rheoliadau hynny.
5. I gyd-fynd â'r diwygiadau sy'n dod i rym i ofynion effeithlonrwydd ynni'r Rheoliadau Adeiladu, mae hysbysiad cymeradwyo ar gyfer y methodolegau cymeradwy a ddiweddarwyd ynghlwm yn **Atodiad A**.
6. Daw'r methodolegau cymeradwy i rym ar 31 Gorffennaf 2014. Mae'r hysbysiad yn nodi'r adeiladau hynny y bydd y methodolegau newydd yn gymwys iddynt ac yn nodi hefyd pryd y gellir parhau i ddefnyddio'r fersiynau blaenorol o'r methodolegau.

Dogfennau Cymeradwy L1A, L1B, L2A, ac L2B

7. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cymeradwyo Dogfennau Cymeradwy L1A, L1B, L2A, ac L2B yn unol â'r Gyfarwyddeb Safonau a Rheoliadau Technegol 98/34/EC. Daw'r Dogfennau Cymeradwy i rym ar 31 Gorffennaf 2014, a gellir eu gweld drwy ddilyn y ddolen a ganlyn:

www.cymru.gov.uk/topics/planning/buildingregs/publications/part-l-energy

Ymholiadau

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y Cylchlythyr hwn, cysylltwch â:

Colin Blick, Rheoliadau Adeiladu, Llywodraeth Cymru, Rhyd-y-car, Merthyr Tudful,
CF48 1UZ.

Rhif ffôn: 03000 628144

E-bost Colin.Blick@wales.gsi.gov.uk.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Francois Samuel'. The signature is written in a cursive style with a large initial 'F' and 'S'.

Francois Samuel

Pennaeth Rheoli Adeiladu

Atodiad A

Hysbysiad Cymeradwyo methodolegau i gyfrifo perfformiad ynni adeiladau er mwyn dangos eu bod yn cydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu 2010 yng Nghymru.

Cyflwyniad

Mae'r hysbysiad hwn yn nodi'r methodolegau cyfrifo cenedlaethol (NCM) a gymeradwyir ar gyfer cyfrifo perfformiad ynni adeiladau penodol yng Nghymru yn unol â rheoliad 24 ac at ddibenion rheoliadau 25, 25C a 29 o Reoliadau Adeiladu 2010 (OS 2010/2214).

Nid yw'r ddogfen hon yn gymwys i fethodolegau cyfrifo cenedlaethol yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, sy'n ddarostyngedig i ofynion rheoleiddio gwahanol.

Caiff yr hysbysiad cymeradwyo ar gyfer cyfrifo perfformiad ynni adeiladau fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) 2012 ei gyhoeddi fel dogfen wahanol.

Hysbysiad Cymeradwyo

SYLWCH fod Gweinidogion Cymru, o dan reoliad 24 o Reoliadau Adeiladu 2010, drwy hyn yn cymeradwyo'r methodolegau a restrir isod ar gyfer cyfrifo perfformiad ynni adeiladau at ddibenion rheoliadau 25, 25C, a 29 o Reoliadau Adeiladu 2010. Mae'r gymeradwyaeth hon yn gymwys i waith adeiladu yng Nghymru ac eithrio adeiladau ynni a eithrir¹, adeiladau'r Goron, neu waith adeiladu gan awdurdodau'r Goron yng Nghymru².

Daw'r gymeradwyaeth hon i rym ar 31 Gorffennaf 2014 a bydd yn parhau mewn grym nes bydd Gweinidogion Cymru yn ei thynnu'n ôl neu nes caiff ei disodli.

Nid yw'r gymeradwyaeth hon yn gymwys i:

(a) waith adeiladu a ddechreuodd ar unrhyw safle cyn 31 Gorffennaf 2014; neu

(b) os rhoddwyd hysbysiad o waith adeiladu o dan reoliad 12(2) o Reoliadau Adeiladu 2010, neu adrannau 47(1), 50, 51A(2) neu 54 o Ddeddf Adeiladu 1984 cyn 31 Gorffennaf 2014, cyhyd ag y bo'r gwaith adeiladu'n dechrau ar y safle cyn 31 Gorffennaf 2015.

Yn y ddau achos uchod, gellir parhau i ddefnyddio fersiynau cynharach o'r methodolegau.

Dyma'r methodolegau cymeradwy:

- a. Gweithdrefn Asesu Safonol Llywodraeth y DU (SAP) ar gyfer rhoi Sgôr Ynni i Anheddau, argraffiad 2012; a'r
- b. Model Ynni Adeiladau wedi'i Symleiddio (SBEM) Llywodraeth y DU, fersiynau 5.2;

Llofnodwyd



Carl Sargeant
Y Gweinidog Tai ac Adfywio

¹ Fel y'i diffiniwyd yn yr Atodlen i Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009 (S.I. 2009/3019)

² Mae'r categorïau hyn i'w gweld yn rheoliad 34 o Reoliadau Adeiladu 2010

Nodiadau ar y methodolegau cymeradwy

Mae'r hysbysiad cymeradwyo hwn yn nodi'r dulliau o ddangos perfformiad ynni adeiladau, fel y'u cyfrifir yn unol â'r fethodoleg a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 24, at ddibenion rheoliad 25 a 25C (gofynion perfformiad ynni sylfaenol ar gyfer adeiladau newydd), a rheoliad 29 (tystysgrifau perfformiad ynni) o Reoliadau Adeiladau 2010.

Rhyngwynebau a phecynnau meddalwedd

I ddefnyddio'r methodolegau cymeradwy, mae angen hefyd defnyddio'r rhyngwynebau a'r pecynnau meddalwedd penodol sy'n gysylltiedig â nhw. Mae'r rhyngwynebau a'r pecynnau meddalwedd a gymeradwyir ar hyn o bryd i'w gweld yn: www.cymru.gov.uk/topics/planning/buildingregs/publications/part-l-energy

Sylwch y caiff y rhestr a welwch drwy ddilyn y ddolen hon ei diwygio o bryd i'w gilydd i gynnwys cymwysiaid meddalwedd newydd, neu fersiynau newydd o'r rheini a restrir, wedi i Weinidogion Cymru eu cymeradwyo.

Cyfrifo perfformiad ynni anheddau newydd

At ddibenion cydymffurfio â rheoliadau 25, 25C(b), 26, 26B, 27 a 27B o Reoliadau Adeiladau 2010, defnyddir SAP 2012 i gyfrifo cyfraddau targed allyriadau CO₂, gwerthoedd targed perfformiad ffabrig, cyfraddau allyriadau CO₂ a gyfrifwyd ar gyfer yr annedd fel y'i cynlluniwyd a'i hadeiladwyd a'r gwerthoedd perfformiad ffabrig a gyfrifwyd ar gyfer yr annedd fel y'i cynlluniwyd a'i hadeiladwyd. Caiff sgôr ased yr annedd, at ddibenion darparu tystysgrif perfformiad ynni o dan reoliad 29 o'r Rheoliadau Adeiladu, hefyd ei chyfrifo drwy ddefnyddio SAP 2012.

Cyfrifo perfformiad ynni adeiladau newydd nad ydynt yn anheddau

At ddibenion rheoliadau 25, 25C(a), 26, 26A, 27 a 27A o Reoliadau Adeiladu, defnyddir SBEM fersiwn 5.2 neu DSM cymeradwy i gyfrifo cyfraddau targed allyriadau CO₂, cyfraddau targed defnyddio ynni sylfaenol, cyfraddau allyriadau CO₂ a gyfrifwyd ar gyfer adeilad nad yw'n annedd, fel y'i cynlluniwyd a'i hadeiladwyd, a chyfraddau targed defnyddio ynni sylfaenol a gyfrifwyd ar gyfer adeilad nad yw'n annedd, fel y'i cynlluniwyd a'i hadeiladwyd. Caiff sgôr ased adeilad nad yw'n annedd, at ddibenion darparu tystysgrif perfformiad ynni o dan reoliad 29 o'r Rheoliadau Adeiladu, hefyd ei chyfrifo drwy ddefnyddio SBEM fersiwn 5.2 neu DSM cymeradwy.

Cymeradwyo offer meddalwedd cyfrifo masnachol

Gellir gwneud cais i Weinidogion Cymru gymeradwyo pecynnau meddalwedd i fod yn rhan o'r fethodoleg ar gyfer cyfrifo perfformiad ynni adeiladau, fel:

- a. cymwysiadau meddalwedd SAP;
- b. rhyngwynebau meddalwedd gyda SBEM;
- c. Modelau Efelychu Dynamig (DSMs).

Cyn y cânt eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru, rhaid dilysu offer meddalwedd yn ôl set o feini prawf cyhoeddiedig i sicrhau eu bod yn gweithredu mewn modd sy'n cyd-fynd â'r methodolegau cyfrifo cenedlaethol a'u bod o'r un safon. Mae'r meini prawf cymeradwyo a'r drefn ar gyfer gwneud cais am gymeradwyaeth i'w cael gan:

Rheoliadau Adeiladu
Llywodraeth Cymru
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ.
E-bost: enquiries.brconstruction@wales.gsi.gov.uk